**Cylchlythyr Optometreg**

Haf 2024

Jump to English

# Adroddiad ar “Llygaid ar AaGIC” Cynhadledd Gogledd Cymru

Aeth tîm optometreg AaGIC â’u cynhadledd “Llygaid ar AaGIC” i Ogledd Cymru, yng Ngwesty’r Oriel ar 13 Mawrth 2024. Roedd yn gynulliad ardderchog gyda chymysgedd gwych o ymarferwyr.

Dywedodd Nik Sheen, Pennaeth Optometreg yn AaGIC, “Roedd yn bleser gweld nifer o gydweithwyr o Ogledd Cymru yn bresennol, rydym yn edrych ymlaen at ddarparu digwyddiadau addysg bellach yng Ngogledd Cymru yn flynyddol'.

Roedd Optometreg AaGIC yn falch o groesawu Catrin Bertalot, Offthalmolegydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a roddodd araith trawiadol ar Sganiau OCT;

Roedd adborth o’r gynhadledd yn cynnwys y canlynol:

*'Roedd hwn yn gyfle gwych i ddod â chlinigwyr ynghyd i ddysgu a thrafod llwybr newydd yr ydym i gyd yn addasu iddo.'*

*'Roedd y gynhadledd wedi'i drefnu yn dda, mae'n dda cael seddau wedi'u neilltuo ymlaen llaw felly mae cymysgedd o bobl ar bob bwrdd. Mwynheais gyflwyniad Catrin Bertalot yn fawr iawn.'*

**Derbyniodd cynhadledd AaGIC Gogledd Cymru sgôr gyffredinol o 4.77/5.0**





## Achrediad Ymarferydd Optometryddion WGOS

Cynhaliodd Optometreg AaGIC eu digwyddiad hyfforddi mewnol cyntaf ar gyfer Optometryddion yn Nhy Dysgu ddydd Gwener 12fed Ebrill 2024 gan ddefnyddio offer arbenigol a fydd yn caniatáu i sesiynau hyfforddi grwpiau bach gael eu cyflwyno i optometryddion o bencadlys AaGIC.

Dywedodd Sasha a Laura - Tiwtoriaid Optometreg AaGIC...

*'Rydym yn falch iawn ein bod wedi darparu hyfforddiant i Optometryddion o AaGIC, Ty Dysgu. Ar ôl blynyddoedd lawer o gynnal digwyddiadau mewn adeiladau eraill, roedd yn bleser arddangos cyfleusterau Ty Dysgu. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant a dangosodd yr un ar ddeg o fynychwyr frwdfrydedd mawr gyda'r sesiynau wyneb yn wyneb. Edrychwn ymlaen at fwy o ddigwyddiadau Optometreg ym mhencadlys AaGIC.'*



# Interniaeth 2024:

Mae Optometreg AaGIC yn falch iawn o fod wedi recriwtio intern ar gyfer rhaglen interniaeth yr haf hwn. Mae Lewis yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd a bydd yn ymchwilio i effaith amgylcheddol optometreg yng Nghymru a'r hyn y gallwn ei wneud i leihau ein hôl troed carbon.

Mae'r rhaglen interniaeth wedi cael derbyniad da iawn yn y blynyddoedd

Darllenwch fwy am y rhaglen interniaeth yma:

[Interniaeth Haf HEIW - Porth Arweinyddiaeth Heiw]()

blaenorol ac edrychwn ymlaen at weld Lewis yn dechrau gyda ni ym mis Gorffennaf.

## Y diweddaraf am y Ty Dysgu - DPP Cynnal Bywyd Sylfaenol (BLS)



Gallwch nawr gael mynediad i fodiwl BLS ar Y Ty Dysgu. Mae 1 pwynt DPP ynghlwm sy'n cwmpasu'r maes Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd.

https://ytydysgu.heiw.wales/courses/ac54d0ad-8db3-4295-bac2-3cae8edae900

## Lleoedd ar Gyrsiau Noddedig

Diolch i bawb a gymerodd yr amser i fynegi eich diddordeb yn ein lleoedd diweddar ar gyrsiau a noddir gan AaGIC.

Cofiwch y bydd cyfleoedd yn y dyfodol yn cael eu hysbysebu trwy Tractivity yn unig.

I glywed am y cyfleoedd hyn, defnyddiwch y ffurflen hunan-danysgrifio ganlynol ar gyfer ein system gyfathrebu newydd, Tractivity:

*https://heiw.tractivity.co.uk/ExternalFormViewer/Form.aspx?ExternalFormID=2*

Yn ogystal â chyfleoedd noddi cyrsiau, byddwn yn defnyddio Tractivity ar gyfer ein cylchlythyrau Optometreg AaGIC, arolygon, ymgynghoriadau ac unrhyw wybodaeth/diweddariadau defnyddiol eraill.

**Beth yw Tractivity:**

Tractivity yw ein system rheoli rhanddeiliaid allanol newydd ar gyfer AaGIC. Bydd yn ein galluogi i gysylltu'n well â chi – ein partneriaid, byrddau iechyd, a gweithwyr iechyd proffesiynol drwy anfon e-byst, creu proffiliau ar gyfer pobl a

sefydliadau, a chadw golwg ar eich diddordebau a rheoli ein cyfathrebiad â chi’n well.

## Useful links:

- Perspectif - Wales Council of the Blind
- RNIB Wales
- SightLife


**heiw.optometry@wales.nhs.uk**
**Ymholiadau cyffredinol neu hyfforddiant ac achrediad WGOS**

**nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk**
**Ymholiadau clinigol WGOS neu ymholiadau ynghylch rheolaeth WGOS**

**HEIW.OptometryLowVision@wales.nhs.uk**
**Hyfforddiant ac achrediad Golwg Gwan**

**Low.vision@wales.nhs.uk**
**Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru - ymholiadau clinigol, ar sail rheolaeth neu ddarpariaeth gwasanaethau**

**Tel: 01443 824653**



Os nad ydych yn dymuno clywed gennym bellach, gallwch ddad-danysgrifio o'n holl ddiweddariadau.

HEIW, Ty Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, CF15 7QQ

Polisi preifatrwydd